LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# YR ADBORTH A DDYWEDOCH WRTHYM

# GWASANAETHAU WROLEG YNG NGORLLEWIN CYMRU

## MEDI 2025

## CYFLWYNIAD

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi clywed pryderon cynyddol am wasanaethau wroleg yng Ngorllewin Cymru. Er mwyn deall beth mae hyn yn ei olygu i chi, fe wnaethon ni lansio prosiect i wrando yn uniongyrchol ar gleifion – boed hynny mewn clinigau neu ysbytai. Mae ein nod yn syml: dysgu beth sy'n gweithio'n dda a lle gallai pethau wella, fel bod gwasanaethau'n wirioneddol diwallu eich anghenion.

Am bythefnos ym mis Hydref 2025, buom yn ymweld â wardiau, adrannau a chlinigau wroleg ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Fe wnaethon ni hefyd rannu arolygon ar-lein a phapur a phostio ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn ei gwneud hi'n hawdd i chi ddweud eich dweud.







# YR HYN Y DYWEDOCH CHI WRTHYM

## CYFATHREBU MEWN ADRANNAU DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYS

Roedd gwybodaeth am ryddhau cleifion wroleg sy'n gadael yr ysbyty i ddychwelyd adref yn aml yn aneglur.

## DOD O HYD I FANYLION TWOC

Nid yw gwybodaeth gyswllt ar gyfer safleoedd Treial Heb Gathetr (TWOC) ar wefan y bwrdd iechyd, gan adael cleifion yn ddryslyd.

## PRYDERON CLEIFION BENYWAIDD

Roedd rhai menywod yn teimlo eu bod yn cael eu gwrthod yn ystod ymgynghoriadau meddygon teulu, gyda sylwadau fel “dim ond menopos ydyw” neu bresgripsiynau yn cael eu rhoi ar ôl galwadau ffôn byr.

## HERIAU TEITHIO

Mae teithiau hir i wahanol safleoedd i gael triniaeth yn anodd i lawer.

## CYMORTH I GLEIFION BYDDAR

Mae masgiau a wisgir yn ystod ymgynghoriadau yn gwneud darllen gwefusau yn amhosibl, gan adael rhai cleifion yn teimlo'n ynysig.

## PROFIADAU CADARNHAOL

Unwaith yn y system, adroddodd cleifion foddhad uchel gyda gofal a chanmol staff am eu harbenigedd a'u tosturi.

- “Roedd y staff yn wych ac yn astud bob amser.”
- “Unwaith y byddwch chi yn y system, popeth yn dda. Mae'r staff yn wych.”
- “Mae fy ngweithiwr cymorth yn Ysbyty Glangwili yn rhagorol – bob amser yn dychwelyd fy ngalwadau.”




## BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Bydd Llais yn codi'r pryderon hyn gyda'r bwrdd iechyd drwy Lythyr Cynrychiolaeth ffurfiol. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i drwy:
- Bostio diweddariadau yn ein cylchlythyr
- Arddangos posteri mewn wardiau wroleg
- Cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan

**Diolch i bawb a rannodd eu barn: mae eich mewnbwn yn bwysig iawn!**

## LLAIS GORLLEWIN CYMRU

Yn cwmpasu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n byw yn:

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Benfro

westwalesenquiries@llaiscymru.org
01646 697 610
@LlaisWestWales